OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1270 (Cy. 161)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | *18 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07:30 o'r gloch ar 18 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn o gefnffordd yr A487 yn Aber-arth yn Sir Geredigion sy'n ymestyn o bwynt

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

670 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4577 i bwynt 2,180 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd hon.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd, yn gyflymach na 40 mya ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd, yn gyflymach na 30 mya ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd, yn gyflymach na 10 mya ar y darn o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Mae darpariaethau “Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Aber-arth, Ceredigion) (Terfyn Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2003”(**1**) yn cael eu hatal mewn perthynas â'r darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 yn ystod y cyfnodau hynny pan fydd y cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 8 Mai 2012

**G R Morgan**
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(**1**) OS. 2003/1982/Cy216.